



# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Testun

Medi 2018

Papur Testun 4: Twristiaeth

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: [www.conwy.gov.uk/cdlln](http://www.conwy.gov.uk/cdlln) Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	4
2.	Pwrpas y Papur Testun hwn .....	4
3.	Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI) .....	4
3.1	Cenedlaethol .....	4
3.2	Rhanbarthol .....	7
3.3	Lleol.....	7
4.	Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol .....	9
5.	Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu .....	9
6.	Sylfaen Dystiolaeth CDLI .....	10
7.	Materion allweddol.....	11
8.	Polisiâu newydd a diwygiedig arfaethedig .....	13
9.	Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol .....	14
10.	Casgliad .....	14
	Atodiad 1: Polisiâu Presennol y CDLI.....	15
	Atodiad 2: Tablau o Bolisi Cynllunio Cymru 9.....	18

## 1. Cyflwyniad

Cynllun defnydd tir yw'r Cynllun Datblygu Lleol o flaen popeth, sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu ar gyfer safleoedd penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am ragor o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cynnal, amddiffyn a gwella lle bo hynny'n briodol, yr agweddau hynny ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig wrth ddiffinio ansawdd a sensitifrwydd y lleoedd rydym yn eu gwerthfawrogi, eu mwynhau, symud drwyddynt, a byw ynddynt. Nod y CDLI yn y pen-draw fydd cyflenwi datblygu cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn gerbyd sy'n caniatáu i'r Cyngor ddiffinio ei flaenoriaethau twf a datblygu allweddol a bydd yn darparu fframwaith parhaus o bolisiau i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## 2. Pwrpas y Papur Testun hwn

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun a luniwyd i lywio cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Eu nod yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol mewn perthynas â'r testun penodol a nodi'r materion allweddol y bydd angen i'r Cynllun fynd i'r afael ag o yn ogystal â dulliau polisi i'w hymgorffori yn y Cynllun. Lluniwyd pob papur testun o dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndirol y CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio'r sail tystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd.) Mae papurau testun wedi eu cynllunio i drafod meysydd testun allweddol sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn y CDLI a fabwysiadwyd ac yn crynhoi'r data technegol sydd wedi ei gynnwys yn y Papurau Cefndirol fel bod y data a gyflwynir yn hygyrch i ddarllenwyr. Mae papurau testun yn gosod safle llinell sylfaen ac yn nodi materion allweddol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol y bydd angen i'r CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw.

Bwriad y Papurau Testun yw rhoi cyfle cynnar i fudd-ddeiliaid a'r cyhoedd gyfrannu at y Cynllun. Mae'r papur testun hwn yn ymdrin â materion allweddol sy'n ymwneud â Thwristiaeth.

### Cefndir

Mae Twristiaeth yn rhan bwysig o economi Conwy, ac yn cefnogi 12,208 swydd gyfwerth â llawn amser yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, gan ddod ag £839 miliwn o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol a chefnogi 70,000 o ofodau gwely (24% o stoc Gogledd Cymru). O ganlyniad, mae'n un o brif gynheiliaid economi Conwy, ac yn un o brif ffynonellau cyflogaeth a refeniw.

Caiff y manteision eu rhannu ledled y Sir yn gynyddol, gydag ymwelwyr yn gwario ar lety, bwyd a diod, gweithgareddau hamdden a siopa. Mae busnesau nad ydynt yn rhan o'r diwydiant twristiaeth hefyd yn manteisio trwy gadwyni cyflenwi lleol.

Mae twristiaeth hefyd o werth hanfodol i'r gymuned ehangach; yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig lle mae llawer o nwyddau ar gael i'r gymuned breswyl yn unig, ac yn parhau'n hyfyw o ganlyniad i wariant ymwelwyr. Cyfeirir at y budd economaidd ehangach hwn i'r gyrchfan fel yr Economi Ymwelwyr, ac mae ei ddylanwad yn llawer ehangach nac effaith uniongyrchol yr elfen dwristiaeth yn unig.

## 3. Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI)


### 3.1 Cenedlaethol

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus i sicrhau datblygu cynaliadwy. Nid yw'r cysyniad hwn yn un newydd ond mae wedi'i ehangu o dan y Ddeddf ac mae'n dweud bod angen gwella'r pedair agwedd ar les: lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n awgrymu y dylai cyrff

cyhoeddus fel cynghorau feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â sefydliadau eraill a chymunedau i atal problemau a defnyddio dull mwy cysylltiol.

Mae'r Ddeddf yn nodi saith 'nod lles' i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o weld Cymru gynhaliol (gweler Ffigur 1 isod). Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio; hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu cynnwys ym mhroses y CDLI Newydd.



Ffigur 1: Nodau Llesiant

### **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 bwrpas statudol i'r system gynllunio, gan ddatgan fod yn rhaid i unrhyw gorff statudol gyda'r bwriad o roi swyddogaeth gynllunio ar waith wneud hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ôl ei ddiffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r system gynllunio felly yn angenrheidiol ac yn ganolog i gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith ddeddfwriaethol a pholisi i reoli defnydd a datblygiad tir er budd y cyhoedd fel ei fod yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

### **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)**

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynhyrchu'r FfDC a'i gadw'n gyfredol. Mae'n rhaid i'r FfDC gwmpasu cyfnod o 20 mlynedd, gan gymhwyso blaenoriaethau'r Llywodraeth i un cyfeiriad rhesymegol sy'n nodi goblygiadau nodau ac amcanion allweddol o ran defnydd tir. Bydd yr FfDC yn nodi blaenoriaethau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r FfDC yn canolbwyntio ar faterion datblygu a defnydd tir sydd o bwys cenedlaethol, gan nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd a newid sylweddol, a helpu i gynorthwyo darpariaeth polisiau Llywodraeth Cymru i uchafu canlyniadau cadarnhaol. Mae'r FfDC yn ffurfio rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol, ac mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydymffurfio yn gyffredinol â'r FfDC.

## **Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 Llywodraeth Cymru**

Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio fod twristiaeth yn cyffwrdd ar amryw rannau o bolisi Llywodraeth Cymru, yn cynnwys sgiliau a chyflogaeth, cynllunio, adfywio, treftadaeth a diwylliant. Y mae hefyd yn cynnig manteision i nifer o sectorau eraill o fewn yr economi yn cynnwys trafnidiaeth, manwerthu ac amaethyddiaeth. Mae'n bwysig felly i ystyried dylanwadau ehangach twristiaeth ac i nodi cyfres ystyrion o ymatebion i'r heriau strategol sy'n debygol o wynebu'r sector dwristiaeth yng Nghymru yn ystod cyfnod y strategaeth.

Mae'r strategaeth hon – sy'n seiliedig ar ymchwil manwl a dadansoddiad o'r ffactorau niferus sy'n debygol o effeithio perfformiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol – yn gobeithio gwthio enillion uwch o dwristiaeth er mwyn cyflawni'r uchafswm gwerth i economi Cymru. Mae'n cefnogi cyflenwad y blaenoriaethau canlynol i dwristiaeth sy'n cael eu diffinio yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru:

- Datblygu gweithgareddau twristiaeth a marchnadoedd arbenigol a sicrhau'r manteision gorau posibl o ddigwyddiadau mawr yn ein lleoliadau uchel eu proffil;
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan drwy wneud cynnig twristiaeth o ansawdd uchel;
- Gweithio i ymestyn y tymor twristiaeth a'r manteision sydd ynghlwm wrth hynny;
- Nodi cyfleoedd ariannu i wella'r cynnyrch a'r isadeiledd ymwelwyr yng Nghymru; a
- Cefnogi buddsoddiad mewn hyfforddi a rheoli staff i gefnogi diwydiant twristiaeth o ansawdd uchel.

Mae'r Strategaeth yn rhoi pwyslais ar feysydd allweddol i gyflawni blaenoriaethau ynddynt yn cynnwys hyrwyddo'r brand, datblygu pobl a chynnyrch, perfformiad proffidiol ac adeiladu lle. Ymhellach, mae'n nodi meysydd lle y ceir mantais gystadleuol yn cynnwys yr amgylchedd naturiol, treftadaeth a diwylliant, gweithgareddau ac antur, digwyddiadau a gwyliau, a chyrchfannau neilltuol.

## **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9 - 2016, ac Argraffiad 10 – drafft ymgynghoriad 2018)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Caiff ei atodi gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a llythyrau egluro polisi. Mae PCC, y TANau a'r llythyrau egluro polisi yn ffurfio'r polisi cynllunio cenedlaethol. Dylid ystyried Polisi Cynllunio Cenedlaethol wrth baratoi holl haenau cynllun datblygu. Bydd PCC yn eistedd ochr yn ochr a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), fydd yn nodi lle mae angen twf ac isadeiledd o bwys cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ei gyflenwi trwy ddarparu cyfarwyddyd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI).

Mae Pennod 11 PCC 9 – 'Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden' – yn amlygu'r ffaith fod twristiaeth yn hanfodol i ddatblygiad economaidd ledled Cymru. Nod Llywodraeth Cymru yw i dwristiaeth dyfu mewn modd cynaliadwy, ac iddo wneud cyfraniad cynyddol i lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Dylai'r cynllun datblygu gynnwys polisiau clir ar gyfer darpariaeth, gwarchodaeth a gwelliant twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

Ar adeg ysgrifennu'r Papur Testun hwn, mae Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru (2015) yn parhau mewn grym. Fodd bynnag, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Argraffiad 10 PCC rhwng Chwefror a Mai 2018 ac unwaith y bydd hwn wedi ei gwblhau, disgwylir i'r argraffiad newydd fod mewn grym cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. O ganlyniad, bydd angen i'r CDLI newydd fod yn gydnaws â chynnwys disgwylidig Argraffiad 10 PCC.

Mae Pennod 5 PCC 10 yn ymwneud â 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus', sydd yn cynnwys isadeiledd ffisegol, y defnydd o ynni, a defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon ymysg ei

themâu. Mae'n cynnwys y datblygu tir sydd yn angenrheidiol ar gyfer datblygiad economaidd, gan gynnwys mentrau gwledig a thwristiaeth, ac yn annog awdurdodau cynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a chadw a datblygu cyfleusterau twristiaeth sydd wedi eu lleoli'n dda, eu dylunio'n dda, ac o ansawdd uchel. Mae PCC 10 yn nodi hyn:

*'Mae'r system gynllunio'n annog twristiaeth os yw'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, ac mae'n cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Mae'r system gynllunio'n gallu helpu hefyd i wella'r ymdeimlad o le mewn ardal sydd â gwerth cynhenid a diddordeb i dwristiaeth. Yn ogystal â chefnogi llwyddiant parhaus ardaloedd twristiaeth presennol, anogir datblygiadau priodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn cyrchfannau newydd. Mewn rhai mannau, fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddatblygiad newydd i osgoi difrod i'r amgylchedd (mewn ardaloedd heb eu datblygu, er enghraifft) neu i amwynder pobl leol ac ymwelwyr.'*

### **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth**

Cafodd y TAN ei fabwysiadu ym 1997, heb unrhyw ddiweddariadau, ac ychydig iawn o wybodaeth yn ymwneud â thwristiaeth i gynghori Cynlluniau Datblygiad sydd wedi'i gynnwys ynddo.

#### **3.2 Rhanbarthol**

##### **Cynllun Datblygu Strategol (CDS)**

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith gyfreithiol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Dylid paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol ac mae'n rhaid iddynt adlewyrchu meysydd gweithredol er mwyn mynd i'r afael â materion fel twristiaeth ranbarthol a meysydd cyfle economaidd.

Mae paratoi CDS yn caniatáu i gyfleoedd a heriau gael eu hystyried a'u cynllunio ar eu cyfer mewn modd integredig a chynhwysfawr, gan hyrwyddo'r gwaith o gyflawni canlyniadau cynllunio cadarnhaol. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC.

##### **Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – 2016)**

Nodau'r Weledigaeth yw:

- Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth Gogledd Cymru.

Yn benodol mewn perthynas â thwristiaeth, bydd y weledigaeth yn edrych i fanteisio ar enw da y rhanbarth fel lle gydag ansawdd byw uchel ac fel cyrchfan dwristiaeth antur byd-enwog.

#### **3.3 Lleol**

##### **Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022**

Pwrpas y Cynllun Corfforaethol yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2017 a 2022. Y blaenoriaethau ydi'r meysydd mae'r Cyngor eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau dinasyddion.

Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus;
- Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

- Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
- Mae pobl yn iach ac yn egniol.
- Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
- Mae pobl yn byw mewn sir lle Mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Ar draws ei holl feysydd gwaith, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol, gan wneud pob ymgais i wneud y penderfyniadau gorau yng ngoleuni cyfyngiadau ariannol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymrwmo i ystyried effaith y polisïau ar gymunedau gwledig, y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan y ddeddfwriaeth Gydraddoldeb a'r bobl sy'n byw mewn tldi. Bydd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn magu hyder i fod yn flaengar. Mae harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol hyd at 2022.

### **Strategaeth Twf Economaidd Conwy (2017 – 2027)**

Mae'r Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer Conwy wedi cael ei datblygu yng nghyd-destun y Weledigaeth Twf Economaidd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru. Cafodd y Weledigaeth Twf ei chynhyrchu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd yn ceisio gweithio ar lefel ranbarthol i ddatgloi potensial yr ardal ac i gydweithio ar themâu megis isadeiledd trafniadaeth, sgiliau, safleoedd a lleoliadau strategol, twf busnes, ac arloesi.

Un o themâu'r Strategaeth hon yw Gweddnewid Twristiaeth, gyda'r nod o wneud Conwy yn *'gyrchfan wirioneddol ryngwladol drwy'r flwyddyn'*.

Nod y strategaeth twf yma yw adeiladu ar y themâu hyn i ddatblygu mentrau uchel eu dylanwad, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Conwy. Bydd cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn gofyn am gydweithio agos rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector a ffyrdd newydd o weithio. Byddant yn gofyn am fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Yn bwysicaf oll, byddant yn gofyn am weledigaeth, dychymyg ac uchelgais. Un o'r 5 uchelgais a nodir yn y Strategaeth yw:

*'Datblygu economi'r nos ac arlwy i ymwelwyr yn ystod y gaeaf ar draws Sir Conwy gan ei gwneud yn gyrcfan i ymwelwyr drwy'r flwyddyn'*.

Mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi'i chydabod fel pedwaredd cyrcfan dwristiaeth orau'r byd gan Lonely Planet ac mae Sir Conwy wrth galon y cynnig hwnnw i dwristiaid. Mae tref Conwy'n enwog yn rhyngwladol am ei threftadaeth o safon fyd-eang ac mae Llandudno wedi'i henwi'n dref lan môr orau'r DU a'r bedwaredd gyrcfan orau yn y DU gan TripAdvisor. Mae'r sir yn dod yn fyd-enwog fel canolfan ragoriaeth ar gyfer anturiaethau adrenalín wrth i Surf Snowdonia, Go Below a Zip World Fforest arwain y ffordd. Mae digwyddiadau mawr wedi denu cynulleidfaoedd newydd i'r sir ac wedi gwneud cyfraniadau economaidd sylweddol. Y peth allweddol nwan yw adeiladu ar y llwyddiant hwnnw a gwella ansawdd swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth hwn. Mae 1 ym mhob 4 swydd yng Nghonwy â chyswllt uniongyrchol â thwristiaeth. Mae angen Rheoli Cyrcfannau Cynaliadwy ac ymgysylltu â'r gymuned ochr yn ochr â buddsoddiad wedi'i dargedu er mwyn parhau i wella'r arlwy fwyd a manwerthu a datblygu'r economi nos, yn enwedig o fewn canol trefi.

### **Cynllun Rheoli Cyrcfan Conwy (2015 – 2018)**

Mae Cynllun Rheoli Cyrcfan Conwy yn nodi uchelgeisiau twristiaid y sir – gyda'r nod o annog twf yr economi leol trwy fanteisio ar asedau hanesyddol a naturiol lleol. Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi'r prif themâu canlynol wrth edrych tua sicrhau profiad gwell i ymwelwyr:



- Twristiaeth Gymunedol – Creu lleoedd, cyfleoedd cyflogaeth, ayyb.
- Digwyddiadau - Access All Eirias, Rali Cymru GB, ayyb.
- Twristiaeth Fusnes – cynadleddau, digwyddiadau, arddangosfeydd.
- Yr Awyr Agored – ymestyn a gwella'r arlwy Twristiaeth Awyr Agored.
- Treftadaeth – hyrwyddo a gwella asedau a phrofiadau treftadaeth Conwy.

### **Creu lleoedd**

Mae Creu lleoedd bellach yn ffurfio craidd Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei groesawu wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau rheoli datblygu i gyflawni'r nod o greu mannau cynaliadwy yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Creu lleoedd yn ddull aml-ddimensiwn i gynllunio, dylunio a rheoli diogelu a gwella ardaloedd. Mae'n ymwneud ag ymateb i'r amgylchoedd drwy ddeall hanes a datblygiad lle, ei swyddogaeth ac, yn bwysicaf oll, ei drigolion a'u perthynas â'r ardal leol. Mae'r Cynllun wedyn yn ymwneud â darparu newid sy'n cyfrannu at ei nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'n defnyddio asedau ac anghenion cymuned leol fel ysbrydoliaeth ar gyfer creu lleoedd da, gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Mae Cynllun Creu lleoedd Abergele wrthi'n cael ei baratoi. Bydd yn cael ei ddarparu gan y gymuned leol a bydd hefyd yn eiddo i'r gymuned leol a phan fydd wedi'i lunio'n derfynol bydd yn gosod y materion sydd angen mynd i'r afael â nhw yn Abergele gyda Chynllun Gweithredu a Monitro wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r materion hynny. Hon fydd y ddogfen gyfeirio leol er mwyn sicrhau cymuned well a chynaliadwy.

### **4. Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol**

Cafodd y CDLI ei fabwysiadu yn Hydref 2013 a hyd yma mae wedi bod drwy'r broses Monitro Blynyddol bedair gwaith. Mae adran nesaf y papur testun hwn yn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol sydd wedi codi o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae polisïau Twristiaeth presennol y CDLI ar gael yn Atodiad 1 er mwyn cyfeirio atynt.

### **5. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu**

Mae Polisi TOU/1 – Datblygiad Twristiaeth Cynaliadwy yn nodi'r amcanion allweddol mewn perthynas â dull y Cyngor o fynd ati yn yr ardaloedd lle y bydd datblygiad twristiaeth yn cael ei gefnogi. Mae'n glir ac nid oes angen unrhyw newid.

Ffurfiwyd Polisi TOU/2 – Datblygiadau Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd ar gyfer datblygiadau twristiaeth mawr, yn enwedig yng nghyswllt ychwanegu llety i safleoedd hamdden. Mae'n gweithio'n dda ar y cyfan ac mae wedi cael ei ddefnyddio i hyrwyddo ac amddiffyn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio. Efallai y bydd angen newidiadau i egluro'r Polisi yn yr Adolygiad.

Roedd Polisi TOU/3 – Parth Llety Gwyliau yn sefyllfa a etifeddwyd i raddau, ac a gawsai ei ddiweddarau a'i ddiwygio yn unol â'r gwaith arolygu diweddaraf. Fodd bynnag, dylanwadau'r farchnad a fydd yn rheoli yn y pen draw ac mae'r ardal wedi gweld nifer fechan o eiddo yn yr ardal yn dymuno cau ac yn cael eu rhoi ar y farchnad am wahanol resymau. Mae benthycwyr hefyd yn ffafrio eiddo'r farchnad agored yn hytrach na rhai economaidd. Ystyrir bod angen diwygiad yn yr Adolygiad i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn y polisi.

Mae Polisi TOU/4 – Meysydd Cabannau, Carafanau a Gwersylla yn berthnasol yn nhermau'r ardaloedd arfordirol yn unig, gan ganiatáu gwelliannau i safleoedd a hyrwyddo dwyseddau is. Yn yr ardaloedd gwledig, mae angen newid y polisi rhywfaint er mwyn mynd i'r afael â'r

safleoedd sefydlog mawr presennol rhag iddynt or-ddatblygu ar diroedd sensitif. Bydd angen addasu yn ystod yr Adolygiad.

Mae dau amcan strategol yn arbennig o berthnasol i'r maes hwn o fewn y CDLI:

- SO5: Annog atgyfnerthu ac amrywio'r economi wledig lle bo hyn yn cyd-fynd â'r economi leol a buddion y gymuned a'r amgylchedd.
- SO8: Cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig a manteisio ymhellach ar y potensial i ddatblygu, atgyfnerthu ac annog diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Nid oes pryderon ynglŷn â gweithredu'r amcanion strategol. Fel y nodwyd uchod, mae rhai ffactorau wedi dod i'r amlwg gyda TOU/2, TOU/3 a TOU/4 ac mae addasiadau mân wedi'u cynllunio ar gyfer cam Adolygu'r CDLI, ond nid yw'r un ohonynt yn mynd at galon y cynllun na'r strategaeth ond byddant yn hytrach yn ychwanegu eglurder pellach.

Ystyrir bod y polisiau yn cynorthwyo i gyflawni Amcanion Strategol SO5 ac SO8 i atgyfnerthu ac amrywio'r economi wledig lle bo hyn yn cyd-fynd â buddion yr economi leol, y gymuned a buddiannau'r amgylchedd. Maent hefyd yn cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig a manteisio ymhellach ar y potensial i ddatblygu, atgyfnerthu ac annog diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn lle bo datblygiad yn cydymffurfio â'r polisi arall yn y CDLI.

Dylid nodi fod y canfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol uchod oll yn seiliedig ar ddangosyddion gosodedig, tra y bydd newidiadau/ychwanegiadau arfaethedig i'r CDLI newydd yn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau a phenderfyniadau cynllunio.

## 6. Sylfaen Dystiolaeth CDLI

Bydd angen y sylfaen dystiolaeth newydd / wedi'i diweddarau a ganlyn i fwydo gwybodaeth i'r CDLI newydd.

- Gweledigaeth Twristiaeth Llandudno\*
- Parthau Llety Gwyliau
- Strategaeth Twf Twristiaeth
- Strategaeth Cyrchfan Conwy
- Cynlluniau a Strategaethau Cysylltiedig
- AMR ac Adolygiad o'r CDLI
- Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).
- Asesiadau Cyflawni Safleoedd

\* Nod Gweledigaeth Twristiaeth Llandudno fydd i ddarparu dadansoddiad o brif asedau Llandudno a dealltwriaeth o'r arlwy bresennol i ymwelwyr, ac asesu patrwm buddsoddiad yn y gyrchfan yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys yr asedau, yr atyniadau a'r cwmnïau sy'n perthyn i'r diwydiant twristiaeth. Bydd pwyslais hefyd yn cael ei roi ar yr arlwy i dwristiaid yn ystod tymor y gaeaf.

Er mwyn archwilio cyfeiriad yr economi ymwelwyr wrth edrych i'r dyfodol, mae'n bwysig bod â dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa yn hanesyddol yn nhermau proffil a gwariant ymwelwyr, marchnadoedd allweddol, a thueddiadau'r sector yn y gorffennol. Er mwyn cael dealltwriaeth o sefyllfa bresennol gweithgaredd, gwariant ac effaith twristiaeth, byddwn yn casglu data sy'n bodoli'n barod yn manylu ar gynhwysedd ymwelwyr yr ardal. Bydd hyn yn cynnwys data ar y stoc llety, deiliadaeth llety, y math o dripiâu, hyd tripiâu, a'r gwariant ar dripiâu lle bo'r wybodaeth honno ar gael. Bydd y dadansoddi hefyd yn canolbwyntio ar

niferoedd ymwelwyr y gaeaf er mwyn bodloni uchelgeisiau'r astudiaeth o ran twristiaeth aeafol.

## **7. Materion allweddol**

### **Twristiaeth Antur**

Mae Twristiaeth Antur yn farchnad sy'n tyfu, gydag atyniadau newydd o fewn ac yn gyfagos i Sir Conwy. Mae'r Awdurdod wedi cefnogi ceisiadau twristiaeth newydd megis Surf Snowdonia yn Nolgarrrog. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno hyrwyddo Cymru fel prif ganolfan twristiaeth antur y byd. 2016 oedd Blwyddyn Antur, ac mae'r themâu blynyddol dilynol wedi cael eu dewis er mwyn hyrwyddo cryfderau mwyaf Cymru a ffocysu gweithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau ar rinweddau cryfaf yr arlwy i dwristiaid yng Nghymru. Mae atyniadau twristiaeth antur newydd a phresennol o fewn neu yn gyfagos i Gonwy yn cynnwys:

- Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Coed y Brenin;
- Surf Snowdonia, Dolgarrog
- Bounce Below a'r Gwifrau Zip, Blaenau Ffestiniog
- Zip World, Bethesda,
- Zip World Fforest, Betws-y-coed
- Canolfan Beicio Mynydd, Blaenau Ffestiniog

Mae Gogledd-orllewin Cymru wedi gweld twf sylweddol mewn twristiaeth sy'n seiliedig ar weithgareddau dros y blynyddoedd diwethaf, ac fe ystyrir hyn fel un o'r prif feysydd twf posib o fewn Nghonwy yn y dyfodol. Yn ychwanegol at hynny, mae twristiaeth antur yn cynnig cyfle gwych i ddatblygu twristiaeth trwy gydol y flwyddyn am nad yw'n cael ei effeithio llawer gan newidiadau i'r tywydd. Mae canllaw a gwefan Calon Antur yn gobeithio brandio'r ardal fel patrwm rhyngwladol o arferion da ar draws y sector awyr agored, ac yn amlygu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael ledled y rhanbarth.

Bydd amcanion a pholisïau'r CDLI newydd yn parhau i gefnogi datblygiad ac ymaddasiad ystod o atyniadau twristiaeth mewn lleoliadau addas all fod yn gartref i amrediad eang o weithgareddau yn yr ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

### **Arallgyfeirio Busnesau Gwledig**

Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiad yn ymwneud â thwristiaeth yn elfen hanfodol yn y gwaith o sicrhau economi leol a chenedlaethol iachus ac amrywiol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bosib y bydd angen i rai busnesau amaethyddol arallgyfeirio er mwyn darparu incwm ychwanegol. Mae hyn weithiau yn golygu addasu adeiladau presennol nad ydynt yn cael llawer o ddefnydd yn lety gwyliau hunan ddarparu tymor byr. Mae Polisiâu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi addasiad rhai adeiladau amaethyddol penodol lle bo hynny yn addas. Prif bwrpas y polisïau yw i ddarparu rhyw ffurf ar fudd economaidd ac nid i ganiatáu deiliadaeth ail gartrefi.

Mae nifer o ymholiadau/ceisiadau wedi eu derbyn am feysydd carafanau neu bebyll ar ddaliadau fferm presennol. Gyda chynnydd ym mhoblogrwydd y mathau newydd hyn o gynnis llety 'gweryslla moethus' ar raddfa fechan, bydd angen i'r Awdurdod ystyried y math yma o geisiadau a drafftio polisi priodol i gefnogi datblygiad llety amgen bach ei effaith ar raddfa fechan sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio fferm dilys. Byddai angen i ddatblygiadau newydd fod mewn lleoliadau addas, ac fe fyddai'n rhaid iddynt beidio â chael effaith negyddol ar y tirlun. Mae'n bosib y bydd angen polisïau penodol i sicrhau fod gwaith arallgyfeirio gan ffermydd a busnesau gwledig yn briodol, yn gymorth i gynhaliadaeth y fenter, ac yn fanteisiol i'r economi wledig.

## Llety Amgen

Dros y blynyddoedd diweddar – ers mabwysiadu'r CDLI – gwelwyd cynnydd yn y mathau o lety hunan ddarpar / dros dro ar y farchnad. Y mathau o lety a welwyd yw podiau, iwrtiau, pebyll 'tepee' a phebyll pren. Caiff y rhain eu hadnabod gyda'i gilydd fel llety 'gwerysilla moethus'. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymholiadau a cheisiadau ynghylch y mathau llety amgen hyn, i'w defnyddio ar safleoedd newydd ac hefyd ar safleoedd presennol yng Nghonwy. Mae'r Awdurdod yn debygol o weld cynnydd yn nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer y mathau llety anhraddodiadol hyn.

Gall y math yma o lety 'bach ei effaith' fod yn fwy derbyniol o ran estheteg na ffurfiau llety mwy 'traddodiadol' fel carafanau statig. O ganlyniad, bydd angen addasu polisïau CDLI cyfredol i sicrhau fod pob math o lety gwyliau yn cael ei gynnwys a'i asesu mewn modd priodol.

## Creu economi nos ac arlwy i ymwelwyr gaeafol

Mae'r economi gyda'r nos a chynnig deniadol i ymwelwyr yn ystod y gaeaf yn hanfodol i sefydlu Sir Conwy fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn. Er mwyn tyfu'r farchnad hon a sicrhau bod cymaint â phosib yn aros dros nos yn sgil yr archebion hyn, mae angen i Landudno gynnig mwy i ymwelwyr ei wneud gyda'r nos, gan gynnwys gwell cynnig o ran bwytaï sydd ar agor. Yn y cyfamser, mae'r data STEAM1 yn dangos fod niferoedd yr ymwelwyr ledled y sir yn gostwng yn sylweddol rhwng Tachwedd a Chwefror. Nid yw hyn yn golygu nad yw pobl yn mynd ar eu gwyliau yn ystod misoedd y gaeaf, ond yn hytrach eu bod yn dewis mynd i fannau eraill. Er mai Llandudno yw prif gyrchfan y sir, mae'n rhaid gweld buddsoddiad ledled y sir er mwyn sicrhau profiad cyson i ymwelwyr. Bydd rhaglenni i fuddsoddi mewn digwyddiadau atyniadol ar yr adeg yma o'r flwyddyn, a datblygu/buddsoddi mewn atyniadau y mae modd eu mwynhau drwy'r gaeaf yn greiddiol i'r gwaith o ddenu mwy o ymwelwyr yn ystod y misoedd hyn. Byddai hyn yn ysgogiad i fwy o lety fod ar gael ar yr adeg yma, gan gyfrannu at yr uchelgais gyffredinol o wella'r ystod dwristiaid a chreu amgylchedd sy'n cynnal swyddi llawn amser o safon.

Bydd polisïau ac amcanion y CDLI newydd yn parhau i gefnogi datblygiad ac addasiad ystod o atyniadau twristiaeth a chyfleusterau i wella arlwy aeafol yr ardal i dwristiaid.

## Llety Gwyliau

Mae cyrchfan dwristiaeth lwyddiannus yn ddibynnol iawn ar ansawdd, lefel a math y llety sydd ar gael o fewn yr ardal honno. Un o brif flaenoriaethau Conwy yw darparu llety o safon. Mae angen sicrhau fod cyflenwad ac amrediad digonol o lety o safon er mwyn bodloni anghenion newidiol y farchnad, addasu ar gyfer twf, a chefnogi economi dwristiaeth ffyniannus. Ymhellach, cydnabyddir hefyd y byddai amrediad ehangach o lety â gwasanaeth yn rhoi mwy o ddewis i'r ymwelydd ac yn apelio tuag at y farchnad seibiannau byr sy'n gweld twf ar hyn o bryd.

## Twristiaeth Ddiwylliannol

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy yn nodi mai treftadaeth yw un o'r sectorau twristiaeth cyflymaf ei dwf yng Nghymru a'r DU gyda dros hanner yr 20 prif atyniad i ymwelwyr yng Nghymru yn safleoedd hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli prosiect i ddatblygu twristiaeth treftadaeth yng Nghymru, a fydd yn helpu i uchafu gwerth economaidd treftadaeth trwy gynyddu nifer, hyd a gwerth ymweliadau â Chymru. Bydd y prosiect hefyd yn helpu i gyflwyno treftadaeth nodedig Cymru i gynulleidfa ehangach trwy ei wneud yn fwy difyr i ymwelwyr a thrigolion Cymru fel ei gilydd. Mae Cadw yn gweithio ar y cyd â chymunedau, partneriaid treftadaeth a'r sector dwristiaeth ledled Cymru i wella'r profiad i ymwelwyr a darparu ystod mwy integredig o weithgareddau twristiaeth treftadaeth trwy ddatblygu teithiau treftadaeth, llwybrau, a pheccynnau digwyddiadau.

Mae treftadaeth ddiwylliannol Conwy yn gyfoethog ac amrywiol, ac mae'n cynnwys enghreifftiau megis Safle Treftadaeth y Byd Castell Conwy sydd yn rhan hanfodol o'r prosiect Cymru gyfan fel ased hanesyddol, economaidd a chymdeithasol bwysig.

## 8. Polisiâu newydd a diwygiedig arfaethedig

Gan ystyried y materion y manylwyd arnynt uchod, cynigir y bydd angen diwygio'r polisiâu canlynol fel rhan o'r CDLI newydd:

Polisi	Sylwadau
TOU/1 - Twristiaeth Gynaliadwy	Newidiadau i adlewyrchu diwygiadau i bolisiâu eraill ac ychwanegiad polisiâu newydd.
TOU/2 – Datblygiad Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd.	Yn bennaf, mae angen mwy o eglurder i gefnogi'r ddarpariaeth 'atyniadau twristiaeth'. Bydd angen ail-eirio'r polisi hwn, ac eglurdeb o ran y ffaith y dylai'r elfen lety fod yn ategol ac ar raddfa sy'n cyfateb i'r atyniad yn unig. Dylid dileu'r cyfeiriad at gyn-safle Gweithfeydd Alwminiwm Dolgarrog, a gaiff ei adnabod bellach fel Surf Snowdonia.
TOU/3 – Parth Llety Gwyliau	Mae ceisiadau diweddar yn dangos y gallai fod angen elfen o hyblygrwydd mewn perthynas a Pharthau Llety Gwyliau o dan amgylchiadau penodol. Mae'n bosib y byddai system â dwy haen i warchod y stoc llety 'primaidd' (e.e. Promenâd Llandudno) rhag defnydd amgen, a chaniatáu agwedd mwy hyblyg tuag at yr ardaloedd stoc 'eilaid' yn gweithio – yn ddarostyngedig i sail dystiolaeth gadarn, a meini prawf llym.
TOU/4 – Safleoedd Cabannau, Carafanau a Gwersylla	Bydd angen newidiadau i'r polisi hwn i sicrhau eglurdeb ar ddull gweithredu CBSC a'r hyn a olygir trwy 'garafanau statig'; cynnydd yn y rheolaeth dros safleoedd sy'n fawr yn barod; ystyried ffurfiau modern ar lety bach ei effaith, a gwahaniad safleoedd presennol a newydd. Hefyd, mae'n bosib y dylid ystyried polisiâu ar wahân ar gyfer safleoedd gwerysyla a safleoedd carafanau.

Yn ychwanegol, mae'n bosib y bydd angen polisiâu newydd er mwyn cynnwys y materion canlynol:

Safleoedd Twristiaeth Antur	Lle yn briodol, i gefnogi egwyddor safleoedd newydd a safleoedd wedi eu ehangu yn unol â Pholisi diwygiedig TOU/2
Llety Amgen	Rhoi ystyriaeth i ffurfiau llety gwyliau modern a bach eu effaith megis iwrtiau, cytiau, podiau, ayyb.
Arallgyfeirio Gwledig	Mae nifer o geisiadau i gefnogi busnesau gwledig presennol yn y gwaith o arallgyfeirio a darparu llety gwyliau amgen wedi eu cymeradwyo. Mae'n bosib y bydd angen polisi newydd mwy penodol i sicrhau eglurder a mynd i'r afael â'r mater hwn.

Llety gwyliau parhaol newydd	Polisi newydd i ddarparu meini prawf ar gyfer datblygiad llety gwyliau parhaol newydd ac addasedig (e.e. gwestai, tai bynciau)
------------------------------	--

## 9. Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI newydd, ac yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses bwysig o ran nodi meysydd sy'n newid a mesurau lliniaru i sicrhau bod y CDLI newydd yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â Deddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r amcanion canlynol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn benodol berthnasol i dwristiaeth:

- Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer ac ansawdd cyfleoedd cyflogaeth i fodloni anghenion dynodedig, tra'n gwella lefel cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ymysg preswylwyr.
- Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella isadeiledd a chreu rhwydwaith drafnidiaeth gynaliadwy, tra hefyd yn sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel.
- Twf Economaidd: Cyflawni twf economaidd cynaliadwy ac uchafu cyfraniad economaidd CBSC i ranbarth Gogledd Cymru, gan gynnwys trwy arallgyfeirio a chryfhau'r sail economaidd leol.
- Treftadaeth Ddiwylliannol: Diogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r asedau diwylliannol, yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg.

Bydd y CDLI newydd o bwysigrwydd penodol wrth benderfynu ar dderbynioldeb – yn cynnwys mewn termau amgylcheddol – y lleoliad arfaethedig, yn ogystal â natur, maint ac amodau gweithredu pob cais datblygiad newydd.

## 10. Casgliad

Mae angen annog a – lle bo hynny yn bosib – gwarchod y sector dwristiaeth, yn enwedig yn y cyrchfannau arfordirol, ac ecsbloetio potensial yr amgylchedd naturiol a threfol o ran twristiaeth er mwyn cynyddu'r arlwy i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn. Mae sectorau twristiaeth antur a thwristiaeth ddiwylliannol yn gweld twf o fewn Conwy a Gogledd Cymru, ac fe fydd CBSC yn anelu at ddatblygu'r rhanbarth ymhellach fel lle i fusnesau twristiaeth ffynnu, i godi safonau ac annog sgiliau a gyrfaoedd. Bydd angen rheoli llety gwyliau yn ofalus – yn enwedig o fewn y trefni arfordirol – a'i warchod i sicrhau bod cyflenwad ac ystod addas o lety o ansawdd uchel i fodloni anghenion y farchnad dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Papur Testun Twristiaeth hwn yn ceisio sefydlu'r prif faterion sydd angen mynd i'r afael â nhw, a'r dystiolaeth sydd ei hangen yn fuan yn y broses CDLI newydd; ond gan y bydd y Cynllun yn cymryd o leiaf tair blynedd cyn ei fabwysiadu mae'n bosib y bydd tystiolaeth a heriau newydd yn codi. Yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael ystyrir y byddai'r polisiâu newydd a diwygiedig arfaethedig yn darparu dull mwy cadarn o fynd ati i ddarparu strategaeth dwristiaeth CBSC. Bydd grŵp budd-ddeiliad allweddol yn adolygu'r sylfaen dystiolaeth yn rheolaidd i nodi prif newidiadau strategol i amcanion polisi a thystiolaeth ac yna yn argymhell diweddariadau i'r papurau cefndirol.

## Atodiad 1: Polisiâu Presennol y CDLI

### **POLISI STRATEGOL TOU/1 – TWRISTIAETH GYNALIADWY**

Bydd y Cyngor yn hyrwyddo economi twristiaeth gynaliadwy trwy:

- a) Cefnogi, mewn egwyddor, cynigion ar gyfer datblygiad twristiaeth gynaliadwy newydd o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn sy'n arallgyfeirio'r economi ac yn annog cysylltiadau traws-ffiniol ag awdurdodau cyfagos, yn unol â Pholisi Tou/2 - 'Datblygu Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd';
- b) Gwrthwynebu cynigion a fyddai'n arwain at golli llety sy'n cael ei wasanaethu, yn unol â Pholisi TOU/3 – 'Ardal Llety Gwyliau';
- c) Rheoli datblygiad safleoedd newydd ac estyniadau i safleoedd presennol ar gyfer chalets, carafannau statig a theithiol a champio o fewn Ardal y Cynllun, yn unol â Pholisi TOU/4 – 'Safleoedd Chalets, Carafannau a Champio';
- d) Cefnogi mewn egwyddor, cynigion i ymestyn y tymor gwyliau tu allan i'r cyfnod brig ar gyfer chalets, carafannau statig a theithio a safleoedd gwersylla gan gynnal ansawdd amgylcheddol a threftadaeth fel y nodwyd ym Mholisi TOU/4;
- e) Gwella cysylltedd trwy gefnogi cyflenwi gwell cysylltiadau yn Harbwr Foryd, gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru a thrwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn unol â Pholisi Strategol STR/1– 'Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd' a Pholisi TOU/2;
- f) Cefnogi, mewn egwyddor, sefydlu gwestai newydd o ansawdd uchel neu wedi'u haddasu (4 a 5\*) sy'n ehangu'r amrediad o lety sydd ar gael yn unol â Pholisi TOU/2.

### **POLISI TOU/2 – DATBLYGIAD TWRISTIAETH A HAMDDEN CYNALIADWY NEWYDD**

1. Bydd datblygu twristiaeth a hamdden newydd, cynaliadwy o ansawdd uchel o fewn yr Ardaloedd Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig ond yn cael cefnogaeth yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- a) Mae'r cynnig yn cynrychioli cynnig twristiaeth o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn sy'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau twristiaeth a gweithgareddau hamdden;
- b) Mae'r cynnig yn briodol o ran maint a natur i'w leoliad ac yn dangos dyluniad effeithlon o ran adnoddau;
- c) Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai manteision cyflogaeth lleol o ran y nifer ac ystod o swyddi;
- d) Mae'r cynnig yn gynaliadwy hygyrch ac yn annog y defnydd o gludiant nad ydyw'n gar;

- e) Mae'r cynnig yn gwneud defnydd addas o unrhyw adeiladau presennol yn hytrach nag adeiladu o'r newydd a thir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na safleoedd maes glas, lle bo'n briodol;
  - f) Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar ddeiliaid eiddo cyfagos;
  - g) Byddai'r cynnig yn cefnogi ac ymestyn yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael yn y Ardal y Cynllun;
  - h) Byddai'r cynnig yn cynorthwyo amcanion y Cyngor o adfywio Conwy;
  - i) Mae'r cynnig yn bodloni polisiau perthnasol eraill yn y Cynllun;
  - j) Ni fyddai'r cynnig yn amharu ar y dirwedd a daw gyda chynllun tirweddu manwl, a lle bo'n briodol, Asesiad Effaith Weledol a Thirwedd;
2. Bydd llety gwyliau newydd o ansawdd uchel ond yn cael eu cefnogi lle mae'n ffurfio rhan atodol o gynllun datblygu twristiaeth cynllun presennol neu newydd bwriedig gan gwrdd â'r holl feini prawf 1 a) - j) uchod. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu safleoedd carafannau sefydlog.
3. Bydd tir yn hen Waith Alwminiwm Dolgarrog cyntaf yn cael ei ddiogelu ar gyfer dibenion cyfleuster twristiaeth a hamdden cynaliadwy trwy'r flwyddyn.

### **POLISI TOU/3 – ARDAL LLETY GWYLIAU**

Dynodir Ardaloedd Llety Gwyliau yn Llandudno ac fe'u dangosir ar y map cynigion. Er mwyn diogelu lefel briodol o lety â gwasanaeth ar gyfer twristiaeth, ni chaniateir cynigion ar gyfer ailddatblygu neu addasu llety presennol a wasanaethir i ddefnydd eraill yn yr ardaloedd hyn.

### **POLISI TOU/4 – SAFLEOEDD CABANNAU GWYLIAU, CARAFANNAU A GWERSYLLA**

1. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu safleoedd carafannau sefydlog. Caniateir cynigion ar gyfer gwella safleoedd presennol o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol dim ond os yw'r datblygiad:
- a) Ddim yn cynyddu nifer yr unedau carafannau sefydlog neu gabannau gwyliau ar y safle; er y caniateir estyniadau bach i ardal safle i hwyluso lleihad mewn dwysedd a gwelliannau i'r amgylchedd neu'r amwynderau;
  - b) Yn hyrwyddo llety gwyliau, cyfleuster a dyluniad o ansawdd gwell,
  - c) Ddim yn amharu'n weledol ar y dirwedd, a daw gyda chynllun tirweddu manwl a lle bo'n briodol, Asesiad Effaith Gweledol a Thirwedd;
  - d) Yn cyd-fynd ag Egwyddorion Datblygu a pholisiau cysylltiedig eraill y Cynllun gan gynnwys y protocol ar y cyd ar berygl llifogydd ar gyfer Tywyn a Bae Cinmel;
  - e) Yn dod gyda Datganiad Bioamrywiaeth yn nodi lle bydd enillion bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni yn unol â pholisi NTE/3



2. Bydd estyniadau neu welliannau i gabannau gwyliau, carafannau a safleoedd gwerysyla sy'n bodoli eisoes o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu ond yn cael eu caniatáu os yw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r meini prawf isod i gyd:
  - a) Mae'r safle o fewn neu'n gyfagos at, a byddai'n ffurfio rhan o gaban gwyliau, carafán, a safle gwerysyla presennol;
  - b) Bydd unrhyw gynnydd yn y nifer o leiniau neu unedau llety dros Gyfnod y Cynllun ar raddfa fach, yn gymharol i'r raddfa ac yn ehangu ar y ddarpariaeth bresennol o fewn yr un caban gwyliau, carafán neu safle gwerysyla;
  - c) Ni fydd y cynllun yn arwain at grynhoi safleoedd na lleiniau'n annerbyniol mewn un lleoliad neu ardal;
  - d) Bod modd cael mynedfa addas ac nid yw'r datblygiad yn creu risg annerbyniol i ddiogelwch priffyrdd.
  - e) Cydymffurfio â'r meini prawf 1. b) -e) uchod.

Mae'r term 'safle gwerysyla'n' cynnwys carafannau teithiol, pebyll ac yurts, tra bydd cynlluniau ar gyfer podiau pren neu strwythurau bach amgen yn cael eu hasesu ar eu haeddiant eu hunain, yn unol â'r meini prawf uchod.

3. Bydd y Cyngor yn caniatáu ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer carafannau, chalets, a safleoedd gwerysyla sy'n bodoli eisoes, ar amod bod y safle yn addas ar gyfer y fath ddefnydd estynedig, na fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniad digwyddiad llifogydd eithafol, a bydd y datblygiad yn cael ei defnyddio ond at ddibenion gwyliau.

## Atodiad 2: Tablau o Bolisi Cynllunio Cymru 9

Polisiâu ar sail testun all y CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw:

Paragraff	Mater Polisi
11.1.10	Y tir hamdden a'r adnoddau dw'r sydd ar gael
11.2.1	Cynigion twristiaeth gynaliadwy
11.2.3	Diogelu mannau agored
11.2.5	Defnyddio llwybrau gleision mewn modd sensitif

Polisiâu ar sail testun all y CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw:

Paragraff	Mater Polisi
11.2.1	Darpariaeth gynaliadwy ar gyfer twristiaeth
11.2.1	Arallgyfeirio gwledig
11.2.2	Safonau'r ddarpariaeth
11.2.3	Datblygu at ddibenion twristiaeth a darparu mannau agored
11.2.4, 11.2.5	Llwybrau beicio diogel
11.2.6	Defnydd amlbwrpas a chyfagos at ddibenion twristiaeth a hamdden